Yn gyntaf, hoffem estyn dymuniadau gorau am flwyddyn heddychlon a chynhyrchiol i'n holl ddarllenwyr yn 2010.

Mae'r Flwyddyn Newydd, yn wir, yn cychwyn yn gadarnhaol iawn, gyda'r newyddion da yr ydym ni i gyd wedi bod yn ei ddisgwyl:

Mae 'CAR Cymru' wedi ei chydnabod yn ffurfiol gan Brifysgol y Cenhedloedd Unedig!

Dychwelodd staff yr Ysgrifenyddiaeth i'r swyddfa'r wythnos yma i ddarganfod llythyr a thystysgrif yn eu haros yn eu hysbysu'n ffurfiol fod Prifysgol y Cenhedloedd Unedig (PCU) wedi penderfynu cydnabod 'CAR Cymru' yn ffurfiol, ar sail argymhelliad Pwyllgor Ubuntu a fu'n craffu ar yr holl geisiadau.

Hoffai'r Grŵp Llywio ailfynegi eu diolch diffuant am y cymorth a roddwyd gan gymaint ohonoch sydd wedi arwain at y canlyniad llwyddiannus hwn. Yn neilltuol, rydym yn deall bod eich llythyrau o gefnogaeth, y dystiolaeth o weithgaredd parhaus ADCDF a'r ffordd amlwg y mae'r gymuned ADCDF yng Nghymru yn rhyngweithio ac yn ymatebol, wedi bod yn ddylanwadol yn argymhelliad y Pwyllgor i PCU. O'r 23 cais am statws 'CAR' (Canolfan Arbenigedd Ranbarthol Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy) a dderbyniwyd o bob cwr o'r byd, cafodd 8 eu cydnabod yn ffurfiol. Gellir gweld rhestr o Ganolfannau Arbenigedd Rhanbarthol eraill yn y DU ac o amgylch y byd ar wefan CAR PCU yn www.ias.unu.edu/sub_page.aspx?catID=108&ddlID=183 <http://www.ias.unu.edu/sub_page.aspx?catID=108&ddlID=183>.

Daw 'CAR Cymru' i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Chwefror 2010.

Yn y cyfamser, mae'r Ysgrifenyddiaeth a'r Grŵp Llywio'n paratoi datganiad i'r wasg er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa ehangaf posibl yn cael clywed am y datblygiad ADCDF (Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang) newydd hwn yng Nghymru.

Mae'r CAR yn bod i gefnogi'r rheiny sydd eisoes - neu sy'n dymuno bod – yn rhan o ADCDF. Ein nod yw cynorthwyo i ddatblygu Addysg fwy effeithiol ar gyfer DC a DF yng Nghymru, a thrwy'r CAR gallwn gydweithio'n haws a dysgu oddi wrth eraill o gwmpas y byd sy'n gweithio yn yr un modd. Wrth gwrs, rydym yn credu bod gan Gymru ei hun lawer i'w gynnig yn y maes hwn, ac rydym wrth ein bodd yn meddwl am ragor o weithgaredd a dysgu ADCDF rhyngwladol, ac am y manteision y gall hynny eu dwyn i bawb.

Yn anffodus, ni allai cynrychiolydd fod yn bresennol yng nghynhadledd CAR Ewrop yn Graz, Awstria, ym mis Rhagfyr, ond aethom ati i baratoi poster a rhai taflenni ar gyfer y digwyddiad er mwyn codi proffil ADCDF Cymru yn rhyngwladol ymhlith cydweithwyr CAR, a thynnu sylw at y prosiectau ADCDF oedd wedi eu cynnwys yn ein cais.

Cylchlythyr 'CAR Cymru'

Bellach, a'r broses ymgeisio wedi dod i ben yn ffurfiol a 'CAR Cymru' wedi ei chydnabod, bydd canolbwynt gwaith pwysicaf yr Ysgrifenyddiaeth yn newid. Byddwn yn

parhau i wasanaethu'r Grŵp Llywio a'i gyfarfodydd, a byddwn yn cymryd mwy o ran mewn datblygu gweithgareddau cefnogol er mwyn hyrwyddo a gwella gwaith cysylltiedig ag ADCDF ledled Cymru – gan fod yn effro ynghylch y ffordd orau y gall CAR, ei Grŵp Llywio a'i Hysgrifenyddiaeth gynnal cefnogaeth berthnasol ac effeithiol. Rhan allweddol o'r swyddogaeth hon fydd hyrwyddo cyfathrebu ynghylch materion ADCDF ar draws Cymru, er mwyn sicrhau bod adnoddau ac ymdrechion rhanddeiliaid sy'n gweithio ym mhob sector yn cael y cyhoeddusrwydd, yr effaith a'r cyfleoedd mwyaf.

Er mwyn i'r CAR ennill ei momentwm ei hun, aros yn seiliedig yn anghenion ei rhanddeiliaid, a pharhau i ganolbwyntio ar gau'r bylchau yng ngwybodaeth, arbenigedd a darpariaeth bresennol ADCDF yng Nghymru, rydym yn bwriadu newid ein dull o gyfathrebu gyda rhanddeiliaid o hyn allan. Hwn felly yw'r Papur Briffio olaf. Yn y dyfodol bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi cylchlythyr at ei gilydd, **fydd wedi ei ysgrifennu gennych chi**. Yn y cylchlythyr byddwn yn cynnwys y diweddaraf am weithgaredd y Grŵp Llywio/Ysgrifenyddiaeth ac adroddiadau diweddaru strategol ADCDF, i'r graddau y bydd gwybodaeth o'r fath o fudd i randdeiliaid o ran rhoi gwybodaeth, gosod cyd-destun, rhoi arweiniad neu flaenoriaethu eu rhaglenni gwaith hwy eu hunain. Fodd bynnag, bydd y cylchlythyr yn gyfrwng i rannu eich profiad ADCDF a'ch cwestiynau, gyda'r bwriad o *ysgogi gweithgareddau a dadleuon.* Bydd y rhain yn eu tro'n cyfrannu at ddatblygu ymarfer, ymchwil a phrosiectau ADCDF yn unigol ac yn dorfol, gyda mwy o effaith, ac felly arwain at ragor o syniadau (ac o bosibl rai mwy arloesol) a chyfleoedd.

Byddwn yn anfon Canllawiau i Gyfranwyr allan maes o law.

Felly, sut gellwch chi gymryd rhan?

1. Os ydych chi'n newydd i ADCDF, edrychwch ar wefan ADC a DF Cymru yn www.esd-wales.org.uk/Cymraeg <http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg> neu www.esd-wales.org.uk/english <http://www.esd-wales.org.uk/english> .

2. Os ydych chi'n newydd i'r cysyniad o Ganolfan Arbenigedd Ranbarthol ar ADCDF, yna taflwch olwg ar wefan swyddogol UNU RCE; rhoddir y ddolen gyswllt ar frig y Papur Briffio hwn.

3. Os oes arnoch eisiau dal i fyny gyda hanes 'CAR Cymru' hyd yma, bwriwch olwg ar Bapurau Briffio 1-3, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn www.esd-wales.org.uk/Cymraeg /RCE_development/default.htm <http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg%20/RCE_development/default.htm> neuwww.esd-wales.org.uk/english/RCE_development/default.htm <http://www.esd-wales.org.uk/english/RCE_development/default.htm> .

4. Roedd Papur Briffio 3 yn egluro nifer o ffyrdd y gall unigolion a chyrff ymwneud â CAR Cymru yn y cyfnod cynnar hwn yn ei datblygiad; edrychwch, os gwelwch yn dda, i weld ym mha ffordd y gellwch chi ein cynorthwyo ni i adeiladu CAR ffyniannus ac effeithiol. At hynny:

5. Rhowch wybod i ni os ydych yn dymuno cael eich cynnwys ar un neu ragor o'n rhestrau dosbarthu; dewiswch y rhestr/au perthnasol o blith:

- **Dysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol**
- **Addysg Bellach**
- **Addysg Uwch**
- **Awdurdod Lleol**
- **Amrywiol**
- **Corff Anllywodraethol**
- **Y Sector Preifat**
- **Cyhoeddusrwydd** (i'r rheiny sydd yn y cyfryngau)
- **Ysgolion**
- **Statudol**
- **Llywodraeth Cynulliad Cymru**
- **Dysgu yn y Gweithle**
- **Gwaith Ieuenctid**

6. Cysylltwch â ni pe baech yn hoffi cael copi o'r datganiad i'r wasg sy'n cyhoeddi sefydlu 'CAR Cymru', i'w ddosbarthu yn ystod wythnos olaf mis Ionawr.

7. Edrychwch allan am wybodaeth bellach ynghylch cylchlythyr CAR Cymru sydd ar ddod a pharatowch i anfon eich cyfraniadau atom!

8. Cadwch eich llygaid yn agored am negeseuon e-bost oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth ('CAR Cymru') ynglŷn â phrosiectau CAR yn y dyfodol sydd wedi eu bwriadu i gefnogi'r rhanddeiliaid *i gyd.* Byddwn yn cysylltu â chi eto'n fuan i ofyn am eich mewnbwn uniongyrchol. Atebwch, os gwelwch yn dda, er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn siapio'n dda ac yn ateb yr anghenion pwysicaf.

Cysylltwch â'r Ysgrifenyddiaeth unrhyw adeg:

RCEWales@swansea.ac.uk

Jane Claricoates: 01792 602029
Yvonne Jones: 01792 602654
Jan Morgan: 01792 602655

Llawer o ddiolch. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gael 'CAR Cymru' ar ei thraed!

Ysgrifenyddiaeth CAR Cymru, Prifysgol Abertawe